**Manyleb Swydd**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Arweinydd Technegol Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol |
| **Prosiect:** | Arwain DGC |
| **Rheolwr Llinell:** | Rheolwr Datblygu Milfeddygol |
| **Cyflog:** | £39,075.11 |

---

**Arwain DGC - cefndir**

Nod y prosiect hwn, sy'n cael ei ariannu drwy Lywodraeth Cymru, yw mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn anifeiliaid a'r amgylchedd. Mae'r prosiect yn unol â nodau ac amcanion Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd: Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd i Gymru 2019-2024.

Bydd y prosiect yn cael ei gynnal gan y partneriaid canlynol — Mentera, WLBP (Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru), Prifysgol Aberystwyth — Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth, Prifysgol Bryste, Iechyd Da a Milfeddygon Gogledd Cymru. Bydd y prosiect yn cael ei arwain a'i reoli gan Mentera.

Mae'r Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol wedi bod yn arwain ar ddefnydd gwrthficrobaidd cyfrifol mewn practisau milfeddygol yng Nghymru ers 2019 ac mae'n elfen graidd o brosiect Arwain DGC. Mae'r Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol wedi datblygu cyfres gydweithredol o ganllawiau triniaeth a phresgripsiynu ar gyfer prif glefydau anifeiliaid fferm, ynghyd â chod ymddygiad presgripsiynu gwirfoddol ar gyfer practisau milfeddygol anifeiliaid fferm. Bydd yr allbynnau allweddol hyn yn cael eu cyflwyno ar draws practisau fferm a milfeddygaeth gymysg yng Nghymru dros y 18 mis nesaf.

**Nod y Rôl**

Bydd y rôl hon yn arwain ac yn rheoli'r gwaith o ddosbarthu'r allbynnau allweddol hyn i Bencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol a phractisau milfeddygol yng Nghymru, gan sicrhau bod practisau'n ymgysylltu â'r cod ymddygiad a'r canllawiau clinigol ac yn eu rhoi ar waith er mwyn gwella presgripsiynu gwrthficrobaidd ledled Cymru. Bydd y rôl hefyd yn rheoli datblygiad adnoddau cefnogi newydd a mireinio parhaus.

Fel rhan o dîm ehangach Arwain DGC, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gyfrannu at bob agwedd ar y prosiect, gan ganolbwyntio'n benodol ar gydlynu'r Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol a'u gwaith.

**Prif Gyfrifoldebau**

- Rheoli’r gwaith o redeg y Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol o ddydd i ddydd, gan gynnwys cynnal gweithgareddau rheolaidd y rhwydwaith presennol a chynnwys practisau a milfeddygon newydd yn y rhwydwaith.
- Arwain ar ledaenu, ymgysylltu a gweithredu Cod Ymddygiad Arwain a’r Canllawiau Clinigol ar draws practisau milfeddygol fferm a chymysg yng Nghymru.
- Cefnogi’r Rheolwr Datblygu Milfeddygol mewn meysydd blaenoriaeth eraill ar gyfer y prosiect sy’n cynnwys y Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol.
- Cydlynu gweithgareddau Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol Cymru, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau, cynnal cyfathrebu rheolaidd, hwyluso grwpiau trafod a thasgau gweinyddol eraill
- Cefnogi darpariaeth y clinigau ceffylau a gwerthuso adborth
- Cynnal adolygiadau o lenyddiaeth academaidd i ddarparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer canllawiau presgripsiynu ar gyfer y prif glefydau clinigol mewn gwartheg a defaid
- Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ym maes iechyd anifeiliaid ar lefel y DU yn rheolaidd
- Casglu a dadansoddi data ansoddol a meintiol ar ddefnydd gwrthficrobaidd a chymryd rhan mewn ysgrifennu adroddiadau prosiect a chyhoeddiadau academaidd
- Gweithio gyda holl bartneriaid y prosiect a darparu cefnogaeth yn ôl yr angen i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n effeithiol.
- Asesu a monitro effeithiolrwydd technolegau newydd wrth leihau'r angen am driniaethau gwrthficrobaidd ac arwain ar adrodd ar y canlyniadau
- Asesu’r rhwystrau canfyddedig sy’n atal pobl rhag cyflwyno’r dechnoleg newydd ar y fferm e.e cost ac amser, ac adrodd yn ôl er mwyn i’r gwersi a ddysgwyd gael eu cyfleu i’r diwydiant ehangach
- Rheoli'r rhwydwaith o filfeddygon/practisau o fewn rhwydwaith y prosiect
- Cefnogi Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol
- Sicrhau bod y systemau monitro yn gyfredol ac yn gywir
- Rheoli gwaith gydag isgontractwyr, gan gynnwys milfeddygon a chwmnïau technolegol
- Cadw at yr holl bolisïau perthnasol e.e. Bioddiogelwch, Caffael, Iechyd a Diogelwch ac ati
- Rheoli ymholiadau o ddydd i ddydd
- Cynorthwyo Rheolwr y Contract i gyflawni'r contract yn effeithiol a nodi ffyrdd o wella'r gwasanaeth yn barhaus
- Cynllunio, gweithredu a gwerthuso prosiectau a threialon
- Darparu ystadegau ac adroddiadau cywir i'r Rheolwr Prosiect a Llywodraeth Cymru
- Gweithio'n agos gyda'r Swyddog Marchnata a darparu gwybodaeth yn ôl yr angen i sicrhau bod gwybodaeth o brosiectau yn cael ei lledaenu i'r diwydiant

- Mynychu cyfarfodydd ar gais y Rheolwr Prosiect a/neu’r Cyfarwyddwr Rhaglenni Gwledig
- Meithrin perthynas agos gyda'r ffermwyr i adnabod eu hanghenion dysgu a datblygu, a thrwy hynny sicrhau amgylchedd o ddysgu parhaus lle gallant symud ymlaen o un maes i’r llall gan sicrhau gwell effaith a dysgu pellach
- Cynllunio a threfnu cyfres o weithgareddau gan sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn ymwneud â’r prosiect yn cael ei dosbarthu'n gywir ac yn amserol
- Monitro'r gyllideb ar gyfer gwneud y gwaith i sicrhau nad oes gorwario na thanwario yn digwydd, a chefnogi'r Rheolwr Prosiect i reoli'r gyllideb yn gyffredinol
    - Gweithio gyda phartneriaid prosiect i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflawni'n effeithiol

**Arall**
- Sicrhau bod safonau ansawdd, gwasanaeth cwsmeriaid, cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch a bioddiogelwch yn cael eu bodloni
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill yn ôl yr angen
- Cynrychioli Mentera yn ôl yr angen

**Sgiliau a Phrofiad**

**Hanfodol**
- Addysg hyd at lefel ddoethuriaeth, neu gyfwerth, mewn iechyd anifeiliaid, milfeddygaeth, amaethyddiaeth, neu bwnc cysylltiedig
- Dealltwriaeth drylwyr o’r sectorau amaethyddol ac iechyd anifeiliaid yng Nghymru, gyda’r gallu i nodi’r wybodaeth a’r gwaith ymchwil ddiweddaraf sy’n berthnasol i iechyd anifeiliaid.
- Gallu lledaenu a chyfathrebu themâu, canfyddiadau ymchwil a chynnwys y rhaglen mewn modd ymarferol a chlir sy'n berthnasol i'r gynulleidfa
- Sgiliau rheoli prosiect cryf
- Gallu dadansoddi data ansoddol a meintiol a chynhyrchu adroddiadau ansoddol a meintiol mewn modd amserol
- Sgiliau cyflwyno a rhyngbersonol ar lefel uwch
- Yn gallu cymell ei hun, ac yn gallu derbyn cyfrifoldeb am osod ac adolygu blaenoriaethau er mwyn cyflawni targedau gyda ffocws clir ar ansawdd
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol
- Yn gallu gwneud penderfyniadau anodd ac amserol er budd y busnes a/neu’r gwasanaeth, gan gynnwys codi pryderon priodol yn ymwneud â darparu’r gwasanaeth, cyllidebau a staff/isgontractwyr
- Sgiliau TG uwch gan gynnwys Word, Excel, PowerPoint, E-bost, Cronfeydd Data a’r Rhyngrwyd
- Trwydded yrru lawn a char i’w ddefnyddio (mae’n bosibl y bydd angen teithio ledled Cymru)

**Dymunol**

- Profiad blaenorol o weithio ar brosiect Arwain DGC
- Profiad blaenorol o weithio gyda'r Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol
- Profiad diweddar o weithio gyda phractisau milfeddygol, sefydliadau academaidd a chwmnïau technolegol
- Ymwybyddiaeth o ddatblygiad polisi amaethyddol ac iechyd anifeiliaid, yn ogystal â strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Os hoffech sgwrs anffurfiol am y swydd yma, cysylltwch â Dewi Hughes ar 07455 733 570 neu dewi.hughes@mentera.cymru

**Mae gofynion y swydd hon yn golygu ei bod wedi ei chategoreiddio fel a ganlyn:**

- Trwydded yrru a char i'w ddefnyddio at ddibenion busnes:
  - Diangen
  - Dymunol
  - Hanfodol ✓
- Gallu yn yr iaith Gymraeg:
  - Gwrando/Siarad: Lefel 3
  - Darllen/Deall: Lefel 3
  - Ysgrifennu: Lefel 3

*Mae Mentera yn darparu hyfforddiant sgiliau iaith i bob aelod o staff sy'n awyddus i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg.*

**Sut i ymgeisio**

Gallwch wneud cais am y swydd hon drwy gwblhau ffurflen gais a ffurflen cyfleoedd cyfartal a'u dychwelyd at swyddi@mentera.cymru erbyn 10 yb, dydd Llun, 28 Hydref 2024

**Cyfweliadau**

Byddwn yn cynnal y cyfweliadau ar gyfer y swydd hon yn rhitiol ar yr wythnos cychwyn 4 Tachwedd 2024. Os nad yw'r dyddiad yma'n gyfleus, nodwch hynny ar eich ffurflen gais os gwelwch yn dda.

**Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae Mentera wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a chreu amgylchedd cynhwysol yn y gweithle. Rydym o'r farn y gellir gwneud hyn drwy ddenu, datblygu a chadw ystod amrywiol o bobl o lawer o gefndiroedd gwahanol. Felly, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob rhan o'r gymuned, beth bynnag fo'u rhyw, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth draws, statws perthynas, crefydd neu gred, cyfrifoldebau gofalu neu oedran. Er mwyn cefnogi ein cyflogeion i sicrhau cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u bywyd personol, am rhan fwyaf o'n swyddi byddwn yn ystyried cynigion i weithio'n hyblyg neu rannu'r swydd.